

Llais y Llan Mehefin 2015

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 25 Gorffennaf 2015

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643

Bowlio pob Nos Lun a Nos Iau 7.30 – 9.30 o Medi

Mehefin 14 Dydd Sul Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Cenarth

Mehefin 15 Nos Lun 8.00 Pwyllgor Blynyddol Ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa

Mehefin 18 Nos Iau 8.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Mehefin 21 Dydd Sul 11.00 Cerdded Llanpumsaint 5 byllau

Mehefin 21 Dydd Sul - Sul y Tadau Rheilffordd Ager Gwili

Mehefin 22 Dydd Llun 2.00 60+ Clwb Neuadd Bronwydd

Mehefin 28 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Mehefin 28 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Nantcelynen Bronwydd

Mehefin 30 Dydd Mawrth Diwrnod chwaraeon ysgol (neu Gorffennaf 7)

Gorffennaf 7 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Gorffennaf 8 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Gorffennaf 10 Nos Wener Sam Merritt Ocsiwn Addewidion - gweld posteri am fanylion

Gorffennaf 11 Dydd Sadwrn Eglwys Bore Coffi - gweld posteri am fanylion

Gorffennaf 11 Dydd Sadwrn 11.00 Cerdded yn Llandeilo a Dynevor

Gorffennaf 12 Dydd Sul Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Taith i Eglwys Maenorbŷr

Gorffennaf 16 Dydd Iau 1.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Gorffennaf 16 Nos Iau 8.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Gorffennaf 18 Dydd Sul Diwrnod Cludiant Clasurool Rheilffordd Ager Gwili

Gorffennaf 19 Dydd Sul Garddwest 'Gardener's Question Time' Gardd Fotaneg Genedlaethol

Gorffennaf 26 Dydd Sul 1.45 Diwrnod Ymarfer Iechyd Neuadd Bronwydd

Gorffennaf 26 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Nantcelynen Bronwydd

Gorffennaf 27 Dydd Llun 2.00 60+ Clwb Neuadd Bronwydd

Awst 5 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Awst 8 Dydd Sadwrn 2.00 Cerdded a Skanda Vale - yn cyfarfod yn Neuadd Goffa

Awst 9 Dydd Sul Dewinwyr Taith i Ffynnon Non, y Naw Ffynnon a'r Capel

Awst 13 Nos Iau 8.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Awst 24 Dydd Llun 2.00 60+ Clwb Neuadd Bronwydd

Awst 27 Dydd Iau 1.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Awst 30 Nos Iau 8.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Medi 1 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Medi 13 Dydd Sul Dewinwyr Taith i Ffynnon Non, y Naw Ffynnon a'r Capel

Hydref 10 Nos Sadwrn 8.00 Teyrnged i Abba Neuadd Goffa

Hydref 17 Dydd Sadwrn 10.00 Bore Coffi Clwb Gwau Tywi Neuadd Bronwydd

Rhagfyr 4 Nos Wener Bingo Nadoligaidd Neuadd Goffa

*Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri
I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Arwel Nicholas ar 01267 281365*

Cyngor Cymuned Llanopumsaint

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yn y Neuadd Goffa ar Fai 5ed 2015 pan gafodd Danny Davies ei ethol yn Gadeirydd ac Arwel Nicholas yn Is-Gadeirydd.

Yn y Cyfarfodydd Busnes a gynhaliwyd ar Mai 5ed a Mehefin 2ail trafodwyd y canlynnol:-

- . Gwella allanfa y cae chwarae h.y. y fynedfa agosaf i'r siop.
- . Tawelu cyflymder y traffic yn y pentref sydd o dan ofal y Gyngor Sir Gar.
- . Y gwaith adeiladu ar bwys y Ficerdy
- . Cronfa Jenny Eirian
- . Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn yr ardal.

Hefyd fe wnaeth y cyngor gymeradwyo Cynllun Diwygiedyg yr Iaith Gymraeg. Nid oedd unrhyw Gynlluniau Adeiladu i 'w trafod. Mae Cynllun yr Iaith Gymraeg ynghyd a chofnodion y cyfarfodydd hyn i'w gweld ar y wefan;- www.llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/
Gellir cysylltu a'r Clerc, Phillip Jones ar 01267 253512 neu ar clerk@llanpumsaint.org.uk

Pwyllgor Rhieni ac Athrawon.

Fe fydd Mabolgampau yr ysgol yn cael ei cynnal yn y Cae Chwarae ar Fehefin 30 neu Gorffennaf 7 2015 , os bydd y tywydd yn caniatáu.

Noson Stêc y Rheilffordd

Bydd Mike, Jayne a Nick yn cynnal Noson Stêc i 2 bob dydd Mercher - 2 x10oz Celtic Pride stêc ffolen gyda sglodion cartref a garnais salad a photel o win tŷ; am £,25 y cwpwl. Ffoniwch y Rheilffordd ar 01267 253643 i archebu.

Clwb Gwili 60+

Mae'r Clwb wedi bod yn brysur iawn fel arfer yn ystod y misoedd diwethaf. Cynhaliwyd cyngerdd yn Neuadd Bronwydd a chafwyd ymateb teilwng. Yr artistiaid oedd Côr Meibion Caerfyrddin, Ross Moore, Wynford James a Huw Evans. Roedd pryd o fwyd twym yn gynnwysiedig ym mhrys y tocyn ac fe ddaeth pob un a'i diodydd eu hunain. Cafwyd noson bleserus iawn.

Mae'r aelodau wedi bod hyd yn hyn ar ddau drip, un diwrnod llawn yng Nghastell Caerdydd a hanner diwrnod arall yn Ninbych y Pysggod a galw yn Llwyau Cariad Cilgeti ar y ffordd. Cafwyd tywydd ffafriol iawn ar y ddau drip.

Y siaradwr gwadd yn ein cyfarfod diwethaf oedd Mrs. Helen Jones. Diddorol iawn oedd ei haraith ar ei thaith ar ei beic i India. Cafwyd ymateb teilwng iawn a chafwyd te a a bisgedi cyn gadael.

Dyma fanylion y siaradwyr gwadd am fisoedd Mehefin, Gorffennaf ac Awst

Mehefin 22 Mr Gareth Richards Paratoi y picnic perffaith

Gorffennaf 27 Mr Bruce Hawkins "Wicked Women"

Awst 24 Mrs Lilian Charles "Mary, Humpty and the Black Sheep"

Hefyd yr ydym ar hyn o bryd yn trefnu dau drip arall, y cyntaf i Amgueddfa San Ffagan ym mis Gorffennaf ac ym mis Awst Taith Ddirgel. Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth cysylltwch a Val Giles, Ysgrifenyddes y Clwb ar 011267 281 281194

Mae Mr Glyn Evans, Trysorydd yn trefnu Twrci a Thinsel am 5 diwrnod i Shanklin, Ynys Wyth tua diwedd mis Tachwedd. Mae rhai seddau yn dal ar gael!

Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth cysylltwch a Glyn ar 01267 236280

Clwb Cerdded Llanpumsaint.

Taith o amgylch Llandeilo, Eglwys Llandyfeisant a Chastell Dinefwr ar Sadwrn Gorffennaf 11 2015 Cwrdd ym Maes Parcio Llandeilo am 11.00 y bore a thalu £1.00 am 4 awr a £1.50 am y dydd cyfan. Wedyn fe fyddwn yn cerdded drwy Landeilo tuag at yr afon a sefyll i edrych ar Ffynnon Sant Teilo sydd yn wal yr Eglwys. Wedyn cerdded ar hyd y llwybr heibio Coedwig Castell Dinefwr ac edrych eto ar adfeilion Eglwys Llandyfeisant lle mae barwniaid Castell Dinefwr wedi cael eu claddu. Cario ymlaen wedyn tuag at Gastell Dinefwr a gwerthfawrogi y golygfeydd hyfryd oddi yno. Yma gallwch gael picnic neu ddiod dwym yn y caffi sydd ar dir Plas Dinefwr sydd gerllaw y castell. Ar ôl cinio medrwn ail gydio yn y cerdded ar hyd y llwybr i Landeilo. Yma gallwn brynu hufen iâ gyda gwahanol flasau. Mae'r daith yn eitha hawdd ar y cyfan heblaw am y dringo i fyny i'r castell. Gallwch gael eich picnic yma os y dymunwch. Taith o bedair milltir a hanner yw hon a ddylai gymeryd rhyw 3 awr a fydd yn cynnwys amser cinio. Dewch a esgidiau cryfion yn enwedig os bydd y tywydd yn anffafriol ond ar y cyfan byddwn yn cerdded ar hyd y llwybrau dewisiedig.

Ar ddydd Sadwrn 8 fed ym mis Awst byddwn yn cerdded i Skanda Vale. Cwrdd ar bwys y Neuadd Goffa am 2.00 y prynahwn. Taith o rhyw 5 milltir yw hon a ddylai gymeryd o amgylch 3 awr. Mae'r daith yn dilyn dyffrynoedd cuddiedig, golygfeydd hyfryd a falle golwg o'r eliffant!!

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Carolyn Smethurst 01267 253308

Dydd Hwyl Neudd Goffa Llanpumsaint.

Cynhaliwyd hwn ar Fai 9 2015 ac roedd y tywydd yn rhyfedd o garedig a chafwyd ymateb da iawn. Dechreuodd y dydd gyda rownderi o dan ofal Jo Davies a dilynwyd hyn gan Gastell Bownsio a pheintio gwynebau (o dan ofal P.Rh ag A.) Profodd rhain i fod yn boblogaidd iawn.

Roedd y Rhostio Mochyn braidd yn hwyr yn cyrraedd ond yn y cyfamser cynhaliwyd y Rhas Hwyaidd o dan ofal Capel Nebo ar yr afon Gwili. Gwerthwyd dros 950 o hwyaid a dyma'r canlyniadau

1af	Dai Jones, Llanpumsaint
2ail	Sharon, Towy Castle
	Osian Rees Pontyberem
	Cadi Evans, Llanpumsaint.
3ydd	Steffan Jones Llanpumsaint.
Gwobr Gysur	Barbara Palmer, Pencader.

Yn ystod y ras hwyaid cynhaliwyd disco i'r plant yn y Neuadd Goffa a dilwynwyd hyn gan Rasio Ceffylau a oedd hefyd yn boblogaidd iawn. Diolch i bawb a'n cefnogodd a hefyd i bawb a wnaeth helpu.

Fe fydd Pwyllgor Blynyddol Ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa yn cael ei gynnal ar nos Lun, Mehefin 15 2015 yn y Neuadd am 8 yr hwyr. Croeso i bawb.

Dyddiadau i'ch Dyddiaduron

Hydref 10 2015 Teyrnged i Abba am 8 yr hwyr

Rhagfyr 4 2015 Bingo Nadoligaidd

Ceir manylion pellach yn yr argraffiad nesaf o Lais y Pentref.

Clwb 100 Llanpumsaint

Mae rhai rhifau ar gael i'w prynu o hyd, y gost yw £12 y flwyddyn, felly os hoffech adnewyddu eich cyfraniad neu am ymaelodi am y tro cyntaf cysylltwch a Derick Lock ar 253524.

Dyma fanylion y rhifau lwcus a dynnwyd yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Lles lleol.

Mawrth	1af	£20	Rhif 82	Carolyn Smethurst.
	2ail	£10	Rhif 79	Gwyneth Ayres
	3ydd	£5	Rhif 59	William Marshall
	3ydd	£5	Rhif 64	Hedydd Rees
Ebrill	1af	£20	Rhif 4	Vivienne Cook
	2ail	£10	Rhif 52	Ron & Eveline Taylor
	3ydd	£5	Rhif 46	Meinir Jones
	3ydd	£5	Rhif 75	Ann Wyke
Mai	1af	£20	Rhif 21	Patrick Thacker
	2ail	£10	Rhif 6	Sandy Mather
	3ydd	£5	Rhif 46	Meinir Jones
	3ydd	£5	Rhif 14	Chris & Jayne Hughes

Digwyddiadau Mehefin a Gorffennaf yn Rheilffordd Ager Gwili

Te'r Prynhawn Hufen ar drên stêm

Tretiwch eich hunan i De'r Prynhawn Hufen Mefus moethus ar daith trwy harddwch cefn gwlad Sir Gâr bob **Dydd Iau o Ebrill i Hydref**, ar Ddyddiau Iau a Gwener detholedig ym Mis Gorffennaf a Mis Awst, yn Rheilffordd Ager Gwili. Oedolion £14.50, Henoed £13.50, Plant £9.00 (yn cynnwys tocyn trên).

Cynghorir archebu ymlaen llaw ac mae'n hanfodol yn ystod gwyliau ysgol. Croesewir grwpiau.

Ciniawa mewn Steil – Ciniio Dydd Sul y Tadau ar y trên stêm

Tretiwch Dad i ginio Dydd Sul tair saig hamddenol yn Rheilffordd Ager Gwili gyda choets bar sy'n gweini cwrw go iawn, seidr lleol, gwin a diodydd meddal. Ymlaciwch a dadflinwch wrth deithio ar drên stêm trwy gefn gwlad hyfryd Sir Gâr. Archebwch docynnau nawr am Sul y Tadau 21ain Mehefin a Ciniio Dydd Sul 5ed Gorffennaf. Archebu ymlaen llaw yn hanfodol. www.gwili-railway.co.uk Cliciwch DINING TAB neu ffoniwch 01267 238213. Gorsaf Bronwydd Arms, Caerfyrddin SA33 6HT.

Diwrnod Cludiant Clasuro – Dydd Sul 19 Gorffennaf, 2015

Ymunwch â ni am ddiwrnod teuluol hwyl a sbri yn cynnwys arddangosfa o Locomotifau Stêm, Ceir Clasuro, Beiciau Modur, Cerbydau Masnachol, Peiriannau Arddangos a Cherbydau Amaethyddol. Reidiau Carnifal i Blant. Mae'r tocynnau yn cynnwys teithio trwy gydol y dydd ar y trenau stêm a diesel a reid ar y Trên Bychan.

Am y holl ddigwyddiadau uchod, archebwch ar-lein www.gwili-railway.co.uk neu ffoniwch 01267 238213 (Llun-Gwener 10-4pm). Gorsaf Bronwydd Arms, Caerfyrddin, SA33 6HT. e-bost: info@gwili-railway.co.uk

Hwyl Gwyliau'r Haf Mae'r Rheilffordd ar agor bob dydd trwy gydol y gwyliau ysgol felly dewch â'ch teulu a'ch ffrindiau i ddarganfod yr oes euraidd o stêm. Sgwrsiwch â chriwiau'r injans, Safle Picnic glan yr afon, gwylwch fywyd gwylt o amgylch Afon Gwili, Rheilffordd Fechan, Blwch Signalau gweithredol, Swyddfa Bost Deithiol, Ystafelloedd Te Fictoraidd, Siop Swfenir, Amgueddfa. Yn gyfeillgar tuag at gŵn (Gall cŵn yn teithio ddosbarth safonol am ddim ond £1). Plant dan 3 yn mynd am ddim. Tocynnau teulu ar gael. Tocynnau yn ddilys drwy gydol y dydd.

Mae Garddwest 'Gardeners' Question Time' Radio 4 y BBC yn dychwelyd

Ar Ddydd Sul, Gorffennaf 19, 2015, bydd Garddwest 'Gardener's Question Time' Radio 4 y BBC yn dod nôl i'r Ardd am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae Garddwest *GQT* yn gyfle unigryw i fwynhau dwy recordiad o raglen arddio radio mwyaf amlwg y BBC.

Byddwch yn cwrdd â thîm *GQT*, rhoi eich cwestiynau o'u blaen yn bersonol, a bydd arddangosiadau a digwyddiadau ar draws yr Ardd, ynghyd â cherdd, bwyd a gweithgareddau i'r teulu cyfan.

Bydd y parti'n cynnwys y gwybodusion garddio pennaf – Bob Flowerdew, Bynnu Guinness, Chris Beardshaw, Pippa Greenwood, Terry Walton, Matthew Biggs, James Wong, Tobu Buckland, Anne Swithinbank, Christine Walkden, a chadeiryddion *GQT*,

Eric Robson a Peter Gibbs.

Felly Dewch i gwrdd â'r tîm a datrys eich problemau garddio unwaith ac am byth!

Yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne, Sir Gaerfyrddin, SA32 8HN ar Dydd Sul, Gorffennaf 19, 2015.

Mae tocynnau i'r digwyddiad yn costio £9.75 (gan gynnwys Cymorth Rhodd) ynghyd â £2 ffi llogi, ac maen nhw ar gael yn awr ymlaen llaw trwy alw 01558 667148. Mae manylion llawn taliadau mynediad ar gael ar <http://www.gardenofwales.org.uk/visitors-info/opening-times/>

Mwynhewch y blodau.

Dim ond pan fyddwn yn ymweld ac ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig yr ydym yn gwerthfawrogi y cyfoeth a flodau ac adar gwyllt yr ydym yn eu mwynhau yma yng Ngorllewin Cymru. Mae cân yr adar nawr wedi gorffen am y Gwanwyn ac y maent yn brysur yn hedfan hwnt ac yma gyda bwyd i'w teuluoedd bychain yn eu nythoedd. Rhaid peidio anghofio am y lindysynnau a'r llyseuennau sydd yn brysur yn bwyta ein planhigion, felly os ydych am lai o bryfed yn yr ardd – annogwch yr adar. Gadewch peth drain a mieri o amgylch y lle, (rhywbeth mae ffermwyr yn galw “trash”) ond i adar mae yn gartref. Mae y rhan fwyaf ohonynt wedi hedfan o Orllewin Affrica, dros anialwch y Sahara i ddod nôl yma. Mae'n bleser gweld y gwennoliaid sydd wedi dod yr holl ffordd o Dde Affrica yn sgwpio miloedd o bryfed y dydd a'u cân yn ein hatgoffa bod yr haf wedi dod er gwaetha llwydni yr awyr. Mae rhai yn nythu tu allan ac eraill y tu fewn, felly byddwch yn garedig a gadewch ddrws yr ysgubor ar agor iddynt. Yr ydym yn lwcus i'w cael ond os ewch chi i ardaloedd amaethyddol cyfoethog yn Lloegr ni welwch chi ddim o rhain gan nad ydynt mewn bodolaeth mwyach.

Y gorau o'n blodau gwyllt yr amser yma o'r flwyddyn yw'r briallu,, llygaid ebrill, clychau'r gog, llysiâu'r ychen a llygaid madfall gwyn ac y maent yn gylfym yn cael eu goddiweddi gan lês y Frenhines Ann. Pan fydd y blodau hyn yn trigo neu gael eu torri mae blodau eraill fel ysgall a'r gramenog fawr yn cymeryd drosodd. Mae rhai Cynghorau Lleol wedi cydnabod pwysigrwydd y blodau hyn i wenyn, pryfed ac adar ac yn gadael ochr yr heolydd i dyfu a dim ond yn eu torri ddwywaith y flwyddyn a hyn yn unig er mwyn atal y planhigion uchel rhag dod rhy ddominyddol. Byddai yn syniad da pe buasem yn troi i fod yn arddwyr dioglyd a gadael rhai ardaloedd yn ein gerddi heb eu torri.

Hyn sydd yn fy atgoffa – mae'n amser cael y bladur allan – dw i dros amrywiaeth ond yn tynnu llinell ble mae dail tafol yn y cwestiwn. Ann Pettitt

Wedi cael digon ar Alwadau Ffôn Digymell?

Rydym wedi cofrestru gyda'r TPS ers peth amser ac mae nifer y galwadau ffôn diangen wedi lleihau'n sylweddol.

Mae'r Gwasanaeth Dewis Ffôn (TPS) yn wasanaeth rhad ac am ddim. Dyma'r gofrestr eithrio swyddogol ble gallwch gofnodi eich dewis i beidio derbyn galwadau gwerthiant neu farchnata digymell. Mae'n ofyniad cyfreithiol i bob sefydliad (yn cynnwys elusennau, sefydliadau gwirfoddol a phleidiau gwleidyddol) i beidio gwneud galwadau o'r fath i rifau sydd wedi eu cofrestru ar y TPS oni bai bod ganddynt eich caniatâd i wneud hynny.

Gall sefydliadau y mae gennych berthynas barhaus â nhw, er enghraifft, y rhai sy'n eich ystyried i fod yn gwsmer, (neu yn achos elusennau - yn rhoddwr), gasglu eich caniatâd yn ystod camau cynnar eich perthynas gyda nhw a byddant felly â'r hawl i'ch ffonio hyd yn oed os yw'ch rhif wedi'i gofrestru ar y TPS, oni bai i chi ddweud yn benodol wrthynt nad ydych eisiau derbyn galwadau ganddynt at ddibenion marchnata.

Gall y TPS gofrestru rhifau ffôn symudol, fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y bydd hyn yn atal galwadau marchnata ond nid negeseuon SMS (testun). Os ydych eisiau stopio derbyn negeseuon marchnata SMS, anfonwch gais 'eithrio' at y cwmni dan sylw.

Gan mai galwadau marchnata yn unig sy'n cael eu hatal gan y TPS, bydd sefydliadau yn dal i allu'ch ffonio er mwyn gwneud ymchwil dilys i'r farchnad.

Mae cofrestru yn syml – ffoniwch 0845 070 0707 i gofrestru eich rhif neu cofrestrwch drwy eu gwefan <http://w.w.w.tpsonline.org.uk>

Damwain ar yr heol drwy'r pentref.

Mae damwain arall wedi bod ar yr heol drwy'r pentref. – dau o'r trigolion yn cerdded ar yr heol gyda'u ci ar yr ochr chwith tuag at Caerfyrddin rhwng pont yr afon Gwili a Pharc Celynin pan gafodd y dyn ei daro gan gar yn dod o gyfeiriad Llandysul. Trwy lwc ni chafodd niwed mawr ac mae'r heddlu yn edrych i mewn i'r digwyddiad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor Cymuned a rhai o bobl y pentref wedi bod yn gweithio gyda'r Rheolwr Trafnidiaeth a Diogelwch Ffyrdd o Gyngor Sir Gar. Yn ddiweddar maent wedi rhoi Gwifren Monitro Cyflymder er mwyn cael y ddiweddarar ar y rhifau a chyflymder y traffic a hefyd comisiynu peiranydd i gynllunio cynllun i oresgyn y broblem. Mae cronfa wedi cael ei chytuno tuag at ran o'r gwaith hyn yn 2015/16 a bydd mwy o waith eto yn y ddwy flynedd i ddilyn. Pan ddaw'r adroddiad i law bydd y Cyngor Cymuned yn ei ddadansoddi a wedyn fe fydd yna gyfle i bawb yn y gymuned i wneud eu sylwadau mewn Cyfarfod Cyhoeddus. Pan fydd yr adroddiad ar gael fe wnewn eich hysbysu.

Mae'r digwyddiad hyn eto yn ein rhybuddio, pan yn cerdded ar yr heolydd yn y pentref i gymeryd gofal. Mae'r llyfr "Rheolai'r Ffordd Fawr" yn rhoi y cyngor canlynnol:-

Os nad oes gyda chi balmant cerddwch ar yr ochr dde o'r heol er mwyn i bob un gael eich gweld. Rhaid cymeryd gofal ychwanegol a bod yn barod i gerdded mewn ffeil unigol yn enwedig ar heolydd cul neu pan mae yn nosi. Hefyd cadw yn agos i 'r clawdd bob amser.

Ambell waith mae yn gynllun da i groesi'r heol yn gynnar cyn cornel a hynny er mwyn i'r gyrrwyr gael gwell golwg ohonoch. Croeswch yn ôl wedyn.

Cynorthwywch ddefnyddwyr eraill i'ch gweld. Gwisgwch neu cariwch rywbeth lliwgar, golau neu fflwroleuol yn enwedig pan fydd yn nosi. Pan fydd yn dywyll gwisgwch rhywbeth sydd yn adlewyrchol fel gwasgod, cot, esgidiau neu wregys. Wrth wisgo rhain mae'r gyrrwyr yn gallu eich gweld dair gwaith ynghynt na rhywun sydd yn gwisgo rhywbeth tywyll.

Cymdeithas Daroganwyr Gorllewin Cymru. – Digwyddiadau yn y dyfodol.

Dydd Sul Mehefin 14 Taith i Abaty Margam

Dydd Sul Mehefin 28 Fe fydd yr awdur Dr. Penny Sartori yn siarad am ei llyfr newydd "The Near Death Experience". Mae hwn wedi ymddangos yn y "Daily Mail" ac fe fydd yn dod a chopiau o'r llyfr gyda hi. Mae hi'n byw yn lleol ac mae hi'n gweithio i Fwrdd Iechyd Abertawe Bro Morganwg.

Dydd Sul Gorffennaf 12 Taith i Eglwys Maenorbŷr

Dydd Sul Gorffennaf 26 Diwrnod Ymarfer Iechyd.

Dydd Sul Awst 9 Taith i Ffynnon Non, y Naw Ffynnon a'r Capel.

Mae'r ymarfer hyn yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol ac yn fuddiol iawn i bawb a chredir iddo darddu o Wlad yr Aifft. Os oes gennych ddiddordeb, ymunwch a ni y Sul nesaf yn Neuadd Bronwydd am 1.45y.p. Tâl mynediad yw £4 y pen a fydd yn cynnwys te a bisgedi yn ystod y toriad. Does dim eisiau unrhyw offer, dim ond presenoli eich hunan.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Sandy ar 01267 253547

Newyddion Eglwys Plwyf, Llanpumsaint.

Fel y gwyddoch ers yr argraffiad diwethaf mae ein Offeiriad a'i deulu wedi symud ac ar hyn o bryd does dim Offeiriad parhaol gyda ni. Er hyn mae'r gwasanaethau yn cael eu cynnal yn yr Eglwys o hyd ac islaw mae rhestr ohonynt am fisoedd Mehefin a Gorffennaf 2015. Mae'r manylion yma hefyd i'w gweld ar yr hysbysfwrdd sydd ar bwys drws y festri.

Mae croeso cynnes i bawb i ddod i'r gwasanathau hyn yn ein Heglwys gyfeillgar.

Gwasanaethau am Fehefin a Gorffennaf 2015

Mehefin 14 2015	Cymun Bendigaid Dwyieithog	11.00 a.m.
Mehefin 21 2015	Gweddi Foreol	11.00 a.m.
Mehefin 28 2015	Cymun Teuluol	11.00 a.m.
Gorffennaf 5 2015	Cymun Bendigaid	8.30 a.m.
Gorffennaf 12 2015	Cymun Bendigaid Dwyieithog	11.00 a.m.
Gorffennaf 19 2015	Gweddi Foreol	11.00 a.m.
Gorffennaf 26 2015	Cymun Teuluol	11.00 a.m.

Bore Coffi

Fe fydd ein Bore Coffi yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 11 2015.

Fe fydd posteri o amgylch y pentref yn fuan ond gwnewch nodyn o hyn yn eich dyddiaduron os gwelwch yn dda. Fe fydd yna raffl, cacennau, stondin boteli, planhigion a chrefftau felly gobeithio yn fawr y dewch i ymuno a ni.

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion y gwasanaethau am fisoedd Mehefin a Gorffennaf 2015

Mehefin 21 2015	Mr Arwel Evans	Gwasanaeth am 2 o'r gloch
Gorffennaf 5 2015	Trip	Manylion pellach i ddilyn
Gorffennaf 19 2015	Parch Goronwy Wynne	Cymundeb am 3 .30 o'r gloch
Mis Awst	Dim Cyfarfodydd.	

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Danny Davies ,Trysorydd 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd 01267 253686

Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel y Bedyddwyr Caersalem, Llanpumsaint

“Cyhoeddwn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd”

Dydd Sul:	10.00am Ysgol Sul I Oedolion (Cymraeg)
	2.00pm Oedfa Bregethu (Cymraeg) Sul ofa'r mis - Oedfa Saesneg
Dydd Mawrth	1.00pm Dosbarth Beiblaidd Dwyieithog yn ein chwaer Eglwys Penuel
Dydd Iau	2.00pm Cwrdd Gweddi

Rhifau Cyswllt Mrs Eleri Morris 01267 253895

Clinig Gofal Traed

Y newyddion day w bod ein ciropodydd rheolaidd Gary Robinson yn masnachu fel

'Head to Toes' ac am ymweld â Llanpumsaint fel o'r blaen. Dylai unrhyw gwsmeriaid newydd gysylltu â Gary ar unrhyw noson rhwng 6-8 y.h.ar 07789344488, a hefyd yn gwsmeriaid presennol sydd eisiau siarad gydag ef. Bydd y clinig nesaf ar ddydd 16 Gorffennaf a 27 Awst

Ysgol Gynradd Llanpumsaint Geraldine Jenkins

Hoffwn groesawu fy hun fel Pennaeth newydd i Ysgol Llanpumsaint. Ar 5ed o Ionawr eleni dechreuais fel Pennaeth newydd yn Ysgolion Llanpumsaint, Cynwyl Elfed ac Abernant. Erbyn hyn dwi wedi gadael fy milltir sgwâr sef ardal Gwmaman, yno cefais fy addysg gynnar yn Ysgol Garnant ac yna ymlaen at Ysgol Dyffryn Aman. Yn dilyn fy amser yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin dechreuais ar fy ngyrfa ym myd addysg. Mae gen i brofiad nid yn unig o fod yn athrawes a phennaeth cynorthwyol yn Ysgol Brynman ond hefyd fel Swyddog Hyfforddi'r Cyfnod Sylfaen i Gyngor Sir Gar. Mae gen i efeilliaid Ffion a Carys sy'n 14eg oed ac yn briod i Dewi. Yn unol â'r gân Dydd Gŵyl Dewi- "Dyn da oedd Dewi"- mae hwn yn wir, heb gefnogaeth fy ngŵr a theulu ni fyddaf wedi gallu datblygu i fod yn bennaeth, felly diolch! Dwi wedi cael tymor a hanner prysur iawn a hoffwn ddiolch i bawb am y croeso cynnes -y disgyblion, rhieni a'r gymuned. Fy ngweledigaeth ar gyfer disgyblion yr ysgol ydy sicrhau bod yr ysgol yn lle hapus a chyfeillgar a lle gall pob plentyn profi llwyddiant a mwynhad. Mae'r dyfodol yn ddisglair i bawb. Newyddion yr ysgol.

Tymor y Gwanwyn- Bu'r cwmni Stiwdio Box yn ymweld â'r ysgol er mwyn gwneud pwt ar y radio-llwyddiant i blant CA 2. Ymweliad gan gwmni Brace's Bread- llond fan o Bicen ar y mân. Cyngerdd ysgol Dydd Gŵyl Dewi- dathlu!

Tymor yr Haf- Llundiau Ysgol/Blwyddyn 6

Ymweliadau ysgolion Uwchradd ar gyfer Blwyddyn 6.

Ymweliad i Ganolfan Pentywyn- Blwyddyn 5 a 6.

Trip- Fferm Ffoli Cyfnod Sylfaen

Trip- Castell Henllys Cyfnod Allweddol 2

Nofio i bawb- tipyn o fwynhad a gwaith caled i bawb.

Llongyfarchiadau i bob plenty gwnaeth gweithio'n galed a gwneud eu gorau glas yn y profion cenedlaethol.

Digwyddiadau'r Tymor- Prawf Beicio, Mabolgampau, Diwrnod Hwyl a Sbri Ysgol Cynwyl Elfed

Newyddion yr Heddlu

Rwy'n gobeithio y bydd yr haf yn ei anterth fis Mehefin, a glaw trwm y 1af yn atgof pell.

Hoffwn atgoffa preswylwyr y bydd tymor yr haf yn rhannau gwledig ein hardaloedd yn gweld cynnydd sylweddol mewn tractorau a cherbydau amaethyddol ar y priffyrdd. Gofynnaf i bob defnyddiwr y ffyrdd ddangos amynedd ar y ffyrdd wrth wynebu cerbydau mawr araf a pheidio â chymryd risgiau diangen; byddant ond ar y ffordd am amser byr. Hefyd, byddwch yn ymwybodol y cynyddwyd y cyflymder uchaf a ganiateir ar gyfer tractor ar y briffordd i 25mya (40cya) o fis Mawrth 2015. Hefyd, hoffwn atgoffa gyrrwyr cerbydau amaethyddol i dynnu i mewn os ydych chi'n gweld bod rhes hir o gerbydau y tu ôl i chi, ac yn bwysicach fyth, i beidio â defnyddio'ch ffonau symudol ar y draffordd, sy'n drosedd a fydd yn costio 3 phwynt i chi os cewch eich dal a dirwy o £100 felly meddyliwch cyn derbyn yr alwad honno – gall fod yn un drud! Yn olaf, rwyf wedi cael gwybod bod un blaid wedi dioddef sawl digwyddiad o fandaliaeth a difrod i bosteri ac arwyddion yn ystod yr ymgyrch etholiadol diweddar. Mae hon yn weithred droseddol a bydd yn cael ei thrin felly os fydd y rhai sy'n gyfrifol yn cael eu dal. Di ddioddefir y gweithredoedd hyn; gwerthfawrogiwr pe baech chi'n adrodd am unrhyw wybodaeth sydd gennych mewn perthynas â'r mater hwn yn gyfrinachol i SCCH 8046 Martin Dickenson yng ngorsaf heddlu Caerfyrddin ar 101.

Cysylltwch â SCCH 8046 Martin Dickenson neu PC8 Craig Roderick ar 101 os oes gennych unrhyw bryderon lleol.

Côr Llanpumsaint a'r Cylch

Ar Ebrill 16 2015 fe berfformiodd y côr "Olivet to Calvary" yn Eglwys Crist yng Nghaerfyrddin. Cafwyd ymateb da iawn ac fe roddodd y côr a'r artistiaid berfformaid o safon uchel unwaith yn rhagor. Cyngerdd Elusennol oedd hwn a'r elusen ddewisiedig oedd "Ymchwil Cancr" ac o ganlyniad fe fydd sic o £1,100.00 yn cael ei chyflwyno i'r elusen yn y dyfodol agos. Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth.

Llythyr gan Carolyn Atkinson

Helo, fy enw i yw Carolyn Atkinson, dwi wedi byw yn Llanpumsaint ers 2009. Efallai bod rhai ohonoch yn fy adnabod ers pryd yr oeddwn yn gweithio yn y siop leol, rhai eraill fel cymydog, ag eraill fel grwaig John Atkinson. Gwnaeth John sefyll fel ymgeisydd etholiadol ar gyfer UKIP yn yr Etholiad Gyffredinol ddiweddar.

Pan y gwnaeth John awgrymu ein bod yn symud nol i Sir Gaerfyrddin, lle y cefais fy magu ym Maesybont, roeddwn yn hapus dros ben. Roeddwn wedi dod adre' a roedd John wrth ei fodd gyda'r ardal a'r croeso twymgalon Cymreig y cawsom. Gwnaeth John gofrestru ar gyfer gwersi Cymraeg yn Ysgol Llanpumsaint o dan ofal Gwyn Nicholas ac ar ol dwy mlynedd yr oedd wedi dysgu digon i ddeall llawer ac i gyfarthrebu tipyn bach. Onibai, yr oedd yn deall y bwysigrwydd o geisio dysgu'r iaith ac rwy'n ei edmygu am hynny. Rwy'n ymwybodol bod llawer ohonoch yn siomedig fod dim fersiwn Gymraeg o'i bamffled etholiadol - roedd wedi gobeithio i gael y cyfle i esbonio hyn i bawb wyneb yn wyneb. Yn anffodus, mi wnaeth amser mynd yn drech ac nid oeddwn wedi medru cwmpasu'r pentref i gyd ar ol gweithio'n galed ar ol ymgyrch etholiadol enfawr. Yn groes i'r prif partion etholiadol, nid oedd ganddom lawer o arian ar gyfer yr ymgyrch. Rydym yn barti weddol fechan a ni chawsom lawer o arian o'r swyddfa canolog ac bu'm rhaid i ni wneud y benderfyniad i fynd ymlaen gydag ymgyrch yr oeddwn yn medru ei fforddio. Gwnaeth Jon dalu am ei ymgyrch ei hun, felly dwi'n shwr yr ydych yn gallu deall faint mor siomedig yr oeddwn i weld fod y nifer fechan o arwyddion yr oedd ganddom yn y pentref wedi'u dwyn neu fandaleiddio gyda graffiti. Tra'n cymryd rhan yng ngwleidyddiaeth a byw mewn gymdeithas ddemocrataidd, reodd yn rhaid i ni dderbyn y byddai John yn cael ei feriniadu a'i herio. Ond mae'n rhaid i mi ddweud ar ein rhan ni a'n teulu, ein bod wedi drysu ac yn siomedig tu hwnt gyda'r ffaith bod rhai wedi tynnu llun mwstas Hitler a swastika ar ddau o arwyddion John (roedd y gweddill wedi cael eu dwyn). Gwnaeth John wasanaethu'r Deyrnas Unedig fel Morol Brenhinol am 34 mlynedd a bu allan yn y Falklands ynghyd a Gogledd Iwerddon. Y peth ola' y dylai gael ei gysylltu gyda yw Natsiaeth. Y mae'n wladgarwr, nid hilydd. Mae'r syniad fod unhryw un eisiau camdrin enw dyn sydd yn wladgarwr a wedi rhoi o'i amser, arian a'i galon i fewn i geisio wella'r Deyrnas Unedig yn ofnadwy i mi. Mae'r ddau ohonom yn byw yn hapus gyda'r ffaith fod gan bawb yr hawl i berthyn ac ethol am unhryw barti wleidyddol. Roeddwn ynghlwn ag ymgyrch urddasol a threfnus; ac er bod gan bob ymgeisydd barn wahanol ar wleidyddiaeth, gwnaeth bawb ddod ymlaen yn iawn. Yr hyn sydd ganddof i ddweud i'r rheini a wnaeth ymddwyn mewn modd anti-ddemocrataidd yw eu bod heb gynrychioli eu parti mewn modd parchus. Mae fy ngobeithion personol i John yn cynnwys y rhan fechan yma o hanes Lanpumsaint - y tro ola i ni gael AS o Lanpumsaint, fe wnaeth ddarparu ysgol i'r pentref - dyna eirionig y fyddai, os byddai fyth yr angen, pe bai'r pentref wedi cael un i ymladd i gadw'r ysgol ar agor. Ni fyddwn byth yn gwybod

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD -Addysg Blynyddoedd Cynnar Rydym ni wedi bod yn brysur yn y Cylch yn ystod yr wythnosau diwethaf yn gweithio ar thema, “Tywydd a Thymhorau”. Mae'r plant wedi bod yn dysgu am y tywydd – mesur faint o law sydd wedi disgyn, mesur y tymheredd, dysgu am oer a phoeth. Bu'r plant hefyd yn plannu hadau blodau haul a nawr yn gwneud arsylwadau arnynt yn tyfu.

Yr hanner tymor yma byddwn yn parhau i ddysgu am y tywydd ac edrych ar dymor yr Haf. Bydd y plant hefyd yn ymarfer ar gyfer diwrnod mabolgampau'r meithrin ar y 26ain o Fehefin, a mabolgampau'r Mudiad ar y 9fed o Orffennaf.

Cynhaliwyd Noson Gaws a Gwin ar yr 16eg o Fai, ar gyfer rhieni a ffrindiau'r Cylch, a diolchwn i bawb a oedd wedi ein cefnogi drwy brynu tocyn neu gwneud cyfraniad.. Diolch hefyd i bawb a oedd wedi helpu ar y noson a'i gwneud yn llwyddiannus..

Os ydych a diddordeb i'ch plentyn fynychu'r meithrin rydym ni ar agor o ddydd Mawrth i ddydd Gwener rhwng 9.15 yb a 12.00 hanner dydd. Rydym yn derbyn plant pan maent yn ddwy oed. Cynhelir Ti a Fi ar fore dydd Mawrth ac ar fore dydd Gwener rhwng 10.00yb a 12.00 hanner dydd ar gyfer rhieni/gofalwyr a phlant . Dewch a'ch plentyn i chwarae ac i gymdeithasu. Rhif cysylltu y Cylch : 07929 431652

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo

Ar ddiwedd tymor 2014/15 gorffennodd y Clwb yn y pedwerydd safle yng Nghyngraig Cyntaf Clybiau Bowlio Mat Byr Sir Gaerfyrddin. Enillwyd Tarian Goffa y diweddar Roy Bowen eleni gan y clwb ar ôl dwy gêm gyfartal yn erbyn Bronwydd. Enillodd y clwb ar fwyafrif shotiau Llongyfarchiadau i Glwb Bronwydd ar eu llwyddiant yn dod yn bencampwyr yr ail Adran a esgyn yn ôl i'r Adran 1af a hynny o fewn blwyddyn. Mae yn braf i feddwl y byddwn yn cyfarfod ein hen ffrindiau bedair gwaith y flwyddyn nesaf.

Fe fydd Cyfarfod Blynyddol y Clwb yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa ar nos Iau Awst 27ain 2015 am 8 yr hwyr. Fe fydd ymarferion am y tymor 2015/16 yn dechrau ar Fedi 3 2015 a wedyn ar bob nos Lun ag Iau drwy gydol y tymor o 7.30 tan 9.30y.h. Fe fydd gemau Cynghrair yn cael ei chwarae, os y byddant adref ar nos Iau a felly hefyd y mwyafrif o gemau oddicartref.

Mae croeso i aelodau newydd bob amser, does dim eisiau profiad achos mae gennym hyfforddwyr profiadol i'ch cymorthwyo. Mae gennym aelodau o 10 tan 85!!

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch os gwlewh yn dda a Ysgrifennydd y Clwb, Derick Lock ar 253524.

Neges oddiwrth y Gwasanaeth Ambiwylans.

Mae y rhan fwyaf ohonom yn cario ffôn symudol i bob man gyda rhifau wedi cael eu storio ynnddynt. Os y byddech mor anlwcus a bod mewn damwain, neu eich cymeryd yn sal fe fyddai llawer o rifau ar eich ffôn symudol ond neb yn gwybod pwy i gysylltu mewn argyfwng. O ganlyniad dyma ymgyrch “ICE” neu “Rhif mewn argyfwng” Mae hwn yn ddull o gysylltu pam fyddwch mewn damwain neu eich cymeryd yn sal. Felly gallwch rhoi enw/au a rhifau ffôn eich teulu agosaf o dan y teitl “ICE”. Parafeddyg gafodd y syniad hyn oherwydd pan oedd yn cael ei alw i ddamweiniau a.y.b. roedd gan y rhan fwyaf o bobl ffôn symudol ganddynt ond dim syniad pwy y ddylent gysylltu pan yn y sefyllfaoedd hyn. Felly, meddyliodd y byddai yn syniad da pe buasai enw cenedlaethol i'r pwrpas hyn. Mewn argyfwng byddai y gwasanaethau yn medru gysylltu a'r person cywir oherwydd eich bod wedi rhoi y rhif o dan “ICE” ar eich ffôn.

Dwedwch wrth eich ffrindiau am hyn. Ymhen amser fe ddaw y rhif hyn i sylw pawb ac fe allai achub eich bywyd a hefyd rhoi tawelwch meddwl i'ch teulu agosaf. Gallwch roi mwy nag un enw, dim ond rhoi “ICE1” “ICE2” a.y.b. O.N. Tybed beth fydd yr enw Cymraeg ar “ICE”?

Dathlu Llwyddiant ein Pobl Ifanc

Mae gennym ieuenctid talentog iawn yn Llanpumsaint – dyma hanes un ohonynt sef **Sam Merritt**. Rydw i wedi bod yn caiacio gyda Chlwb Padlo Llandysul am wyth blynedd ers yr oeddwn yn wyth mlwydd oed. Pan o'n ni yn ifancach nid oeddwn yn hoffi unrhyw fath o chwareuon yn yr ysgol ond wedi dechrau caiacio unwaith yr wythnos rydw i yn ei fwynhau yn fawr iawn. Dechreuais i ganwio slalom pan yn ddeg oed a phan o'n i'n dair ar ddeg oed ces fy nerbyn yn Nhim Cymru. Gyda slalom rydw i wedi trafaelu dros y Deyrnas Unedig i gyd ac ambell waith i Dde Ffrainc. Ond nawr rydw i am wireddu fy mreuddwydion i fod yn Gaiacydd Dŵrgwyn a dyna y rheswm y gwnes i roi cais i fewn i fynd i Academi Gaiacio Safon y Byd.

Mae'r Academi Gaiacio Safon y Byd yn ysgol symudol gyda ei chanolfan yn Trout Lake, yn Nhalaith Washington yn yr Amerig. Mae'r ysgol yn gwario y rhan fwyaf o'i hamser yn trafaelu o amgylch y byd gan gaiacio ar afonydd anghredadwy. Clywais am yr ysgol hon gan un o'm hyfforddwyr pan o'n i mewn cystadleuaeth yn yr Alban dros wyliau'r Pasg eleni. Roedd hyn yn beth delfrydol i fi, Ysgol Gaiacio Dŵrgwyn!

Yn syth ar ôl cyrraedd adre dechreuais feddwl am ymgeisio ac ymhen rhai wythnosau wedi cysylltu a'r ysgol sawl gwaith dyma ddanfôn fy Ffurflen Gais i mewn ac hefyd ymgeisio am ysgoloriaeth. Rydw i yn falch o ddweud bod fy nghais wedi bod yn llwyddianus ac hefyd derbyn ysgoloriaeth sylweddol iawn – yr ysgoloriaeth fwyaf mae'r ysgol erioed wedi ei chynnig. Newyddion cyffrous iawn oedd hyn ond nawr mae yn ofynnol i fi i godi £14,500 i dalu am fy ffioedd a fy nhreuliau. Ers cael y newydd rydw i wedi bod yn brysur iawn yn ceisio codi arian.

Fel rhan o Academi Safon y Byd bydda i'n gwario fy amser yn trafaelio, caiacio a hefyd astudio ar gyfer fy Lefel A. I ddechrau'r flwyddyn byddwn ni'n padlo ar afonydd yn Ottawa a Quebec, Wedyn dod adre cyn gadael eto am Mecsico. Fe fyddwn yno tan gwyliau'r Nadolig a wedyn ymadael eto ym mis Ionawr i Temuco . Ar ôl gwyliau'r Pasg byddwn ni yn mynd i Arfordir Gorllewin yr Amerig i orffen blwyddyn bythgofiadwy.

Mae mynychu yr Academi wedi gwireddu breuddwyd achos fe fydd yn rhoi y sgiliau i fi i ddilyn gyrfa fel Caiacydd Proffesiynol. Yn y tymor hir fy uchelgais yw i orffen fy addysg a thrafeilio'r byd fel Caiacydd Proffesiynol. Gobeithio y byddaf yn ffodus i gael noddwyr a maes o law agor Academi Gaiacio rhywle yn Ewrop.. Ond yn gyntaf mae'n rhaid i fi godi arian er mwyn mynychu yr Academi ym mis Medi eleni. Ar Orffenaaf 10ed eleni bydda i yn cynnal Ocsiwn Addewidion ond bydda i yn cadarnhau'r amser a'r lleoliad yn nes ymlaen.

Sut mae. Fy enw yw **Maia Marguerite Merry** o Neuadd Deg, Llanpumsaint. Rydw i yn un ar bymtheg oed ac yn ddiweddar yr wyf wedi cael cynnig lle yng Ngholeg yr Iwerydd yn Llanilltud Fawr. Mae'r coleg dim ond yn cynnig ugain o lefydd i fyfyrwyr o'r Deyrnas Unedig a rydw i wedi bod yn lwcus iaawn i gael un ohonynt. Mae hwn wedi bod yn uchelgais bywyd gyda fi. Er mwyn mynychu'r Coleg mae yn ofynnol i fi godi arian i dalu am fy addysg yno am ddwy flynedd. Rwyf wedi bod yn brysur iawn dros y tri mis diwetha' yn codi arian, Cefais grant hael iawn o £2000 gan Dr Dewi Davies, Cronfa Waddol am Ogledd Sir Gar. Hefyd rwyf wedi cynnal llawer o weithgareddau i godi arian gan gynnwys ocsiwn yn Neuadd San Pedr yng Nghaerfyrddin ar Fai 7ed a llwyddais i godi dros £4100 a hyn drwy garedigrwydd a chefnogaeth hael pobl y pentref a'r ardal. Os hoffech gael ragor o wybodaeth am y coleg, rhoi rhodd neu eisiau gwybod rhagor pam yr wyf mor angerddol i wireddu fy uchelgais medrwyh ymweld a fy ngwefan themaiamerrymission.org neu fy Weplyfr o'r un enw. Neu os yr hoffech allwch gysylltu a fy mam, Moïshe ar 07476 352149. Byddaf yn cynnal "Tabletop Sale" yng Nghaerfyrddin yn y dyfodol agos. Os oes gennych unrhyw beth i'w roi byddaf yn ddiolchgar iawn. Maia.

Enwau lleoedd – yr olaf

Mae'n amlwg fod ynys yn golygu darn o dir wedi ei amgylchynu gan ddŵr ac fel arfer dŵr mor. Felly gwyddom am Ynys Môn, Ynys Enlli, yr Ynys Bŷr, Ynys Dewi, ac yn y blaen. Ond beth am lefydd fel Ynysybwl, yn y Cymoedd sydd yn bell bell i ffwrdd o unrhyw lan mor? A does ddim ishe mynd ymhellach nac ardal Bronwydd, lle cawn ffermydd Trefynys a Phentrefynys, tyddyn Cwmynys, ac i lawr yn y pentref, Troedyrnys. Yn wreiddiol golygai Ynys ddarn o dir uchel uwchben dol afon, a dyna i chi beth gewch yn yr enghreifftiau uchod uwchben yr afon Gwili. Mae son am Ynysybwl yn ein hatgoffa o fferm leol Trebwl. Daw'r gair Bwl o'r Ffrengig "Boule", sydd yn golygu dyffryn bach o siâp bowlen. Diddorol nodi fod Trebwl yn ymddangos hefyd yn Llydaw.

Mae rhai enwau lleoedd yn hen iawn ac yn adlewyrchu llwybrau ein cyndeidiau cyntefig dros y bryniau, mewn oes pan fyddai'r dyffrynnoedd naill ai'n rhy beryglus ne'n amhosib eu tramgwyddo. Ffordd drwyddo yw bwlch, felly cawn yn lleol, Bwlchbychan, Bwlchyronnen, Bwlchwyn a Bwlchyrhyd, i ddatgelu hen hen lwybrau'r oesoedd cynt. Ganrifoedd ar ôl hynny cyrhaeddodd y Rhufeiniaid i greu ffyrdd cadarn unionsyth. Hyd yn oed heddiw gallwch ymladd eich ffordd ar hyd rhan o'r heol Rufeinig leol o Fronwydd i Lanpumsaint. Daw enwau ffermydd Troedyrhiw a Phenrhiw ac yna'r ail Droedyrhiw, sef Cwppers, yn brawf cywir iawn o lwybr yr hen ffordd. Yna rhyw dri chanllath eto ac ar lan yr afon Cerwyn adeiladwyd caer amddiffynnol yn Rhydygaer, ymhell cyn sefydlu'r eglwys yma. Er mwyn cadarnhau eu hawdurdod ar yr ardal dyma gastell arall i reoli ardal Nebo (Ystum Gwili bryd hynny) ym Mhenygaer uwchben yr afon Gwili. Felly gallwch fod yn weddol siŵr pan welwch y gair Caer fod hwn yn dyst i'r Rhufeiniaid fod yma. 'Does 'na'm gwell enghraifft na Chaerfyrddin!

Gyferbyn ag eglwys Llanpumsaint mae ffermyd'r Llandre (Llan + Tre) yn weladwy o hyd, gyda'r enw'n datgelu iddi fod un amser yn lleoliad amaethyddol yn perthyn i'r eglwys, lle byddai' taeogion yn llafurio. Bu'r hen daeogion wrthi hefyd yn Llain a Lleine. Ganrifoedd 'nol rhaid oedd gwneud y defnydd gorau posib o gynhesrwydd yr haul, er mwyn tyfu cnydau a chadw'r oerfel mas. Felly bu dewis safle i wneud cartref yn fater pwysig a gofalus, ac mae enwau fel Bronhaul, Fronheulog a Frondeg yn ategu i'w perchnogion fod yn llwyddiannus. Mae'r gair gilfach yn dynodi lle cysgodol, felly mae Gilfachmaen, Gilfachfawr a Gilfachfach yn dathlu hefyd. Credwch neu beidio hen air Cymraeg am goes yw Esgair, a thasech chi'n gallu edrych i lawr o'r awyr ar fferm yr Esgair neu bentref bach Esgair ger Cynwil Elfed mi welech fod siâp y tir yn adlewyrchiad o'r aelod hwnnw o'r corff.

Ymddangosa'r gair coch yn aml iawn mewn enwau lleoedd dros Gymru gyfan, megis Penrhyncoch ger Aberystwyth, Gilfachgoch ym Morgannwg, neu Rhosgoch ar y ffordd i Sir Benfro. Mae'n bwysig cofio bod ein tîrwedd yn edrych dipyn yn wahanol ganrifoedd yn ôl pan ffurfiwyd yr enwau hyn. Anghofiwch ein darlun cyfoes o gaeau trefnus a chnydau taclus, oherwydd bryd hynny tiroedd gwyllt oedd yn rheoli, gyda'r brwyn yr eithin a'r rhedyn yn teyrnasu dros rannau helaetho'n gwlad. Felly ar adegau'r o'r flwyddyn byddai llywiau coch llwyd yn amlwg mewn sawl man, daw Frongoch, Gorsgoch a Phenrhiwgoch yn enghreifftiau lleol o hyn. Yn y pentref mae Clytau Cochion yn dynodi fod y clytiau, sef lleiniau oedd yn cael eu ffermio o'r un lliw. Cewch rai enwau sy'n hawdd fel Pandy. Gwyr pawb mae dyma le golchwyd y gwlan adeg y diwydiant hwnnw ac mae rhai o'n hynafiaid yn cofio'r sŵn a lliw'r afon pan oeddent wrthi. A thros dir Waunyrhelfa bu'r tywysogion gynt yn hela bywyd gwyllt. Mae enwau eraill yn gallu bod yn anodd ac aneglur iawn, a gadewais ddau o'r rhai mwyaf cymhleth yn olaf, sef Pantiouar a Bwlchtrap. Barn un arbenigwr oedd bod Pantiouar yn golygu pant o dir ar fryn, a chawn Pantyfedwen yn weddol agos iddo. Efallai fod y lle'n edrych fel na ond rywsut nid yw'r eglurhad yn eistedd yn gyfforddus gyda Iouar. Barn un arall oedd iddo olygu dŵr oer, ac felly yn cyfeirio at lyn yno. Prin chwarter milltir islaw Pantiouar gwelwn Bwlchtrap, mae'r bwlch yn rhwydd ond beth am y trap? A fu yma ryw fath o lyn at ddefnydd troi rhod i'r felin, neu a fu yma le i gadw pysgod dan reolaeth? Eglurhad arall i Trap yw lle i ladron a dynion drwg gwato, ond prin fydde bobl Nebo'n bles a'r eglurhad hwnna! Efalla wedyn fydde'n gallach i ni dderbyn busnes y dŵr a'r llyn falle!

Gellir mynd mhlan a mhlan am ystyr a dehongliad enwau lleoedd, felly fy mwriad yw cloi pen y mwdwl ar y testun, am y tro beth bynnag. Ond wedi dweud hynny os oes yna rywun a chwestiwn penodol neu ddehongliadau eraill yna croeso i chi gysylltu â mi. Arwyn 2015

Village Voice June 2015

Copy Date for next Edition 25th July 2015

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Monday and Thursday from 3 September 7.30 – 9.30 Bowls at Memorial Hall

June 14 Sunday Dowsers Field Trip to Margam Abbey

June 15 Monday 8.00 AGM Memorial Hall Trustees Memorial Hall

June 15 Monday 8.00 AGM Hall Trustees Memorial Hall

June 18 Thursday 8.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

June 21 Sunday 11.00 Walk including 5 pools in Llanpumsaint – meet outside Railway Inn

June 21 Sunday Father's Day Lunch Gwili Railway Book 01267 238213

June 22 Monday 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

June 28 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

June 28 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

June 30 Tuesday School Sports Day (or 7 July) Playing Field

July 7 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

July 8 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – to book phone 253643

July 10 Friday Sam Merritt's Promise Auction –see posters for details

July 11 Saturday Church Coffee Morning Memorial Hall – see posters for details.

July 11 Saturday 11.00 Walk Llandeilo/Dynevor

July 12 Sunday Dowsers Field Trip to Manobier Church

July 16 Thursday 1.00 Foot Care Clinic Memorial Hall

July 16 Thursday 8.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

July 19 Sunday Classic Transport Day Gwili Railway Book 01267 238213

July 19 Sunday Gardeners Question Time Garden Party National Botanic Garden

July 26 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

July 26 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

July 27 Monday 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

August 5 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – to book phone 253643

August 8 Saturday 2.00 Walk up to Skanda Vale – meet at Hall Carpark

August 9 Sunday Dowers Field Trip to Nons Well

August 13 Thursday 8.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

August 24 Monday 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

August 27 Thursday 1.00 Foot Care Clinic Memorial Hall

August 30 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

September 1 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

September 13 Sunday Dowers Field Trip Trelech Newport Gwent

October 10 Saturday 8.00 Abba Tribute Evening Memorial Hall

October 17 Saturday 10.00 Coffee Morning Towy Knitting Club Bronwydd Hall

December 4 Friday Christmas Bingo Memorial Hall

*Llanpumsaint and Ffynnon Henry Memorial Hall
To book the hall, phone Arwel Nicholas on 01267 281365*

Llanpumsaint Community Council

At the AGM on May 5th, Danny Davies was promoted to Chairman, with Arwel Nicholas as Vice Chairman.

At the Business Meetings on 5th May and 2nd June the discussions included improving visibility for persons exiting the playing field via the staggered entrance nearest the shop, traffic calming measures in the village being drawn up by Carmarthenshire County Council, the building works that have been started adjacent to the Vicarage, the Jenny Eirian Fund, and access to Public Rights of Way in the area. The Council also approved an amended Welsh Language Scheme, which is available on the website. There were no Planning Applications to discuss.

The Welsh Language Scheme will be on the website and details of your Community Councillors can be found on the website <http://llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/> You will also be able to see past minutes in both Welsh and English – these are also available in the shop.

The next monthly business meeting will be on 7th July, and there is no meeting in August. All Llanpumsaint residents are welcome to attend any of the Community Council meetings. These are conducted mainly in Welsh, but there are full translation facilities available. Phillip Jones the Clerk can be contacted on 01267 253512 or email clerk@llanpumsaint.org.uk

PTA

School Sports day in the playing field – 30th June, or 7th July depending on weather

Railway Steak Nights

Mike Jayne and Nick will be hosting Steak Nights for 2 every Wednesday – 2x10oz Celtic Pride rump steaks with homemade chips and salad garnish plus a bottle of house wine for £25 per couple – please phone Railway on 01267 253643 to book.

